



*Mae'r Safon Bolisi hon yn nodi'r gofynion sydd ar y colegau a'r adrannau i sicrhau bod bysiau mini sy'n eiddo i'r brifysgol, ar brydles neu wedi'u llogi a gaiff eu gyrru gan staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr ar faterion yn ymwneud â'r brifysgol, yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw yn ddiogel.*

*Darperir gwybodaeth hefyd am ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol y rhai sy'n gyrru bysiau mini a/neu'n teithio mewn bysiau mini ar weithgareddau'n ymwneud â'r brifysgol.*

*Ceir rhagor o ganllawiau penodol sy'n cynnwys arfer da fel y disgrifir gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Rheolau'r Ffordd Fawr yn Llawlyfr Bysiau Mini cysylltiedig Prifysgol Bangor.*

***Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i'r canlynol:***

- *Y brifysgol a'i cholegau a'i hadrannau.*
- *Pob aelod staff a phob myfyriwr.*
- *Gyrwyr gwirfoddol o'r tu allan i'r brifysgol.*

***Nid yw'r ddogfen yn berthnasol i'r canlynol:***

- *Bysiau mini a yrrir dramor (yn cynnwys Iwerddon).*
- *Cerbydau amlbwrpas (MPV).*
- *Defnyddio bysiau mini Undeb y Myfyrwyr i weithgareddau'n gysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr.*

Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch:	13 Tachwedd 2013
Dyddiad gweithredu:	13 Tachwedd 2013

## 1. DATGANIAD POLISI

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ond yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y gofynion statudol ac arfer da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i'r brifysgol.

## 2. RHAGARWEINIAD

Yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol dan y gyfraith, mae gan y brifysgol, a'r colegau a'r adrannau sy'n perthyn iddi, gyfrifoldebau ac ymrwymiadau penodol dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd a'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith i sicrhau diogelwch bysiau mini sy'n eiddo i'r brifysgol, ar brydles neu wedi'u llogi, a chymhwysedd staff a myfyrwyr sy'n gyrru'r cerbydau ar weithgareddau'n ymwneud â'r brifysgol.

At ddibenion y Safon Bolisi hon defnyddir y diffiniadau canlynol:

- *Bws mini: Cerbydau modur sydd wedi'u hadeiladu neu eu haddasu i gario dros wyth ond ddim mwy nag 16 teithiwr yn ychwanegol at y gyrrwr.*
- *Trwydded bysiau bach: Fel sefydliad addysgol, gall y brifysgol ddefnyddio bysiau mini o dan drwydded Adran 19 a elwir yn drwydded bysiau bach. Mae hyn yn eithrio gyrrwyr sy'n gyrru bysiau mini ar weithgareddau'n ymwneud â'r brifysgol o rai o ofynion y Ddeddf Trafnidiaeth (fel y'i diwygiwyd).*
- *Uchafswm Mâs Awdurdodedig (MAM): Dyma'r pwysau cerbyd mwyaf y gall gyrrwr ei yrru, ac sy'n cynnwys pwysau'r cerbyd, y gyrrwr, yr holl deithwyr a'r llwyth.*

*Mae'r MAM yn amrywio gan ddibynnu ar y categorïau trwydded yrru sydd gan y gyrrwr.*

- *Gyrrwyr Categori B: Gall y rhain yrru cerbydau hyd at 3,500kg MAM (4,250kg os darperir offer arbenigol ar gyfer teithwyr anabl).*
- *Gyrrwyr Categori D1: Gall y rhain yrru bysiau mini o unrhyw bwysau hyd at 16 o seddi teithwyr (ni ddylai'r cerbyd fod yn fwy nag 8 metr o hyd) a thynnu ôl-gerbyd hyd at 750kg.*

## 3. CEFNDIR A GWYBODAETH

Mae bysiau mini'n ddull hanfodol o deithio i golegau ac adrannau sydd eisiau gwneud gweithgareddau sy'n golygu cludo grwpiau o staff a/ neu fyfyrwyr. Er bod y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau yn nodi, am bob milltir a deithir, bod pobl mewn bysiau mini yn llai tebygol o fod mewn damwain na phobl mewn ceir, mae nifer o ddamweiniau difrifol wedi digwydd. Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol yn ddiweddar oedd ym mis Ebrill 2013 pan fu bws mini yn cario grŵp o ferched ar 'barti plu' mewn gwrthdrawiad â lori ar yr M62 pan laddwyd un ferch ac anafwyd 20 arall.

Mae hefyd yn drosedd o dan ddeddf traffig ffyrdd i achosi neu ganiatáu i fws mini gael ei yrru ar y ffordd pan gall ei gyflwr, neu'r ffordd y caiff ei ddefnyddio, achosi perygl i unrhyw un yn y bws neu ddefnyddwyr eraill ar y ffordd. Gan hynny, rhaid i weithredwyr roi systemau ar waith i gydymffurfio â holl ofynion cyfreithiol perthnasol, cyngor Rheolau'r Ffordd Fawr, a chymryd pob cam rhesymol i amddiffyn y gyrrwr, y teithwyr a defnyddwyr eraill ar y ffordd rhag gwrthdrawiad a risg o gael anaf.

## 4. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, mae'r ddyletswydd i weithredu'r Safon Bolisi hon wedi'i dirprwyo i bob coleg ac adran, fel y bo'n briodol.

## 5. DYLETSWYDDAU COLEGAU AC ADRANNAU

Mae'r Safon Bolisi hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob coleg/adran benodi aelod staff i weithredu fel 'cydlynnydd bysiau mini' (gweler Atodiad 1 am grynoded o'r dyletswyddau). Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i golegau/adrannau sefydlu'r trefniadau canlynol os ydynt yn gweithredu bysiau mini ar weithgareddau anfasnachol sy'n ymwneud â'r brifysgol:

i) *Y CERBYD - BWS MINI:*

- a) Prynu / llogi / prydlesu bysiau mini priodol sy'n addas i'r ffordd fawr gyda gwregysau wedi'u gosod lle bo modd.
- b) Darparu offer atodol ym mhob bws mini (gweler y llawlyfr bysiau mini).
- c) Sicrhau bod bysiau mini wedi'u trethu ac â thystysgrif brawf ers yr oeddent yn newydd (12 sedd neu lai mewn garej sy'n rhoi tystysgrif brawf, 13-16 sedd (dosbarth V) mewn garej profi LGV / PCV).
- d) Cynnal a chadw bysiau mini yn ôl y cyfnodau a argymhellir gan y gwneuthurwr a'r garej sy'n rhoi gwasanaeth.
- e) Trefnu i'r bysiau mini sydd ar brydles neu sy'n eiddo i'r brifysgol gael eu gwirio bob wythnos i weld a ydynt yn addas i'r ffordd fawr.
- f) Sicrhau bod gyrwyr yn gwneud archwiliadau o'r cerbyd a'u cofnodi cyn pob taith.
- g) Peidio â defnyddio bysiau mini diffygiol hyd nes bod gwaith atgyweirio wedi'i wneud.
- h) Trefnu yswiriant addas pe bai'r cerbyd yn torri.

**SYLWCH: Caiff MPVs eu gyrru weithiau fel dewis arall i fysiau mini.**

**Gall gyrwyr yrru MPVs sydd â sedd i hyd at 8 teithiwr yn unig. Mae'n rhaid cael cymhwysedd gyrru a chatgoriau trwydded ychwanegol i yrru MPVs gyda 10 sedd neu fwy.**

ii) *YSWIRIANT:*

- Rhoi'r wybodaeth ganlynol i swyddog yswiriant y brifysgol i sicrhau'r yswiriant addas:
  - Bysiau mini ar brydles neu'n eiddo i'r coleg / adran.
  - Gyrwyr y bysiau mini ac os yw'r gyrrwr yn rhoi gwybod am ardystiad neu amodau ar drwydded yrru neu gyfyngiadau meddygol.
  - Bysiau mini wedi'u llogi trwy lenwi 'ffurflen yswiriant ar-lein'.

iii) *GWEITHREDU - TRWYDDEDAU BWS BACH:*

- Prynu nifer ddigonol o drwyddedau bws bach oddi wrth y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.
- Monitro trwyddedau dan gyfyngiad amser, a'u hadnewyddu yn ôl y gofyn.
- Sicrhau bod bysiau mini yn cael eu gweithredu o dan y drwydded bysiau bach, gellir ei symud o un cerbyd i'r llall a'i harddangos yn ffenest flaen y cerbyd.

iv) *GYRWYR - YN CYNNWYS STAFF NAD YDYNT YN PERTHYN I'R BRIFYSGOL / MYFYRWYR (GWIRFODDOLWYR):*

*Cymhwysedd* - sicrhau bod pawb sy'n gyrru bws mini: staff, myfyrwyr **A** gwirfoddolwyr:

- Yn o leiaf 25 mlwydd oed. *Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi'u hawdurdodi i yrru bws mini ar weithgareddau'n ymwneud ag Undeb y Myfyrwyr, ond ni chânt yrru cerbyd ar weithgareddau'n ymwneud â choleg neu adran hyd nes eu bod yn 25 oed, **oni bai y ceisiwyd a chafwyd caniatâd swyddog yswiriant y Brifysgol.***
- Yn meddu ar drwydded yrru lawn (categori B) ers o leiaf ddwy flynedd.
- Wedi llwyddo'r prawf MIDAS (ar gael trwy Undeb y Myfyrwyr) neu brawf tebyg sydd wedi'i gymeradwyo.
- Yn cael hyfforddiant diweddar MIDAS bob 4 mlynedd.

- Ddim ond gyrru bws mini gydag Uchafswm Màs Awdurdodedig a niferoedd seddi teithwyr fel y nodir gan y categorïau angenrheidiol ar eu trwydded yrru:

<b>Categoriâu Trwydded</b>	<b>Uchafswm Màs Awdurdodedig (MAM)</b>	<b>Bws mini: 8 - 14 o seddi teithwyr</b>	<b>Bws mini: 16 o seddi teithwyr</b>	<b>Ôl-gerbydau Tynnu</b>
B	3,500kg (4,250kg os darperir offer arbenigol ar gyfer teithwyr anabl)	✓ Ni ddylai'r MAM fod yn fwy na 3,500kg neu 4,250kg os darperir offer arbenigol ar gyfer teithwyr anabl	✗ <sup>1</sup>	✗
D1 <sup>2</sup>	Bws mini o unrhyw bwysau (ni ddylai'r cerbyd fod yn fwy na 8m o hyd)	✓	YDI (16 o seddi teithwyr)	✓ (hyd at 750kg)

**Cymhwysedd - mae gofynion ychwanegol yn berthnasol os yw'r bws mini yn tynnu ôl-gerbyd:**

- Rhaid i yrwyr fod â chategori D1 os ydynt yn tynnu ôl-gerbydau hyd at 750kg, a D1E os ydynt yn tynnu ôl-gerbydau dros 750kg. Mae'n rhaid i yrwyr sydd heb y categori hwn gymryd y prawf gyrru D1 a'r prawf gyrru D1 neu D1E fel bo'n briodol. Mae'n rhaid i yrwyr hefyd fynd ar gwrs hyfforddi ynglŷn â sut i ddefnyddio bws mini i dynnu ôl-gerbyd.

**SYLWCH:** Newidiwyd y Categoriâu Trwydded Yrru yn 2013. Gellwch eu gwirio trwy ymweld â [Thrwyddedau Hen a Newydd](#)

**Awdurdodi** - ar ôl gwirio'r uchod, rhoch awdurdod ysgrifenedig i yrwyr, **yn cynnwys staff nad ydynt yn perthyn i'r brifysgol a myfyrwyr (gwirfoddolwyr)** i yrru bws mini.

**Cyffredinol** - sicrhau bod pawb sy'n gyrru bws mini:

- Ddim ond yn gyrru bws mini gydag Uchafswm Màs Awdurdodedig a niferoedd seddi teithwyr fel y nodir gan y categorïau a nodir ar eu trwydded yrru (gwelwch y tabl uchod).
- Yn cael eu cynghori i beidio â gyrru'n ddi-dor am fwy na 2 awr, heb seibiant o 15 munud o leiaf, ac ni ddylent yrru am fwy na 6-7 awr mewn diwrnod.
- Yn gweithredu o dan y drwydded bysiau bach ar weithgareddau dan arweiniad y brifysgol yn y DU yn unig.
- Yn darparu eu gwasanaeth heb dâl neu wobr ac eithrio mân dreuliau.
- Yn cyflwyno eu trwydded yrru bob blwyddyn ac ar unwaith os rhoddir ardstiad, amodau neu gyfyngiadau meddygol.
- Yn cael copi o'r Llawlyfr Bws Mini ac yn deall eu cyfrifoldebau penodol wrth yrru i wneud gwaith y brifysgol.

<sup>1</sup> Gall gyrrwyr Categori B ddim ond gyrru bws mini 16 o seddi teithwyr os yw'r MAM (cerbyd, gyrrwr, yr holl deithwyr, ac unrhyw lwyth ychwanegol) yn 3,500kg neu lai.

<sup>2</sup> Fel rheol, bydd gan yrwyr sydd wedi llwyddo yn eu prawf cyn 1 Ionawr 1997 gategori D1 ar eu trwydded. Yn dechnegol, gallent yrru bysiau mini o hyd at 16 o seddi teithwyr a thynnu ôl-gerbyd hyd at 750kg. Rhaid i golegau / adrannau sy'n cymeradwyo'r cyfryw yrwyr gadarnhau fod gan y gyrrwr y gallu a'r hyder i yrru'r cerbydau mwy hyn a thynnu. Rhaid darparu hyfforddiant ychwanegol ar gais e.e. cwrs gyrru bws mini ac ôl-gerbyd.

#### COFNODION:

- Cynnal a chadw cofrestr o fysiau mini sy'n eiddo i'r brifysgol neu a brydlesir.
- Manylion log am ddefnyddio'r bws mini hynny yw, dyddiad, gyrrwr, amser mynd allan a dod yn ôl, cyhoeddi trwydded bws bach, adrodd am namau.
- Cadw copïau o'r ffurflenni cofrestru teithiau (eu llenwi ar gyfer pob taith).
- Cynnal a chadw dogfennau cerbydau perthnasol e.e. MOT, treth, yswiriant, cynnal a chadw, archwiliadau.
- Cynnal a chadw cofnodion gyrrwr bws mini (wedi'u cadw yn unol â rheolau gwarchod data) e.e. awdurdod i yrru, copïau o drwyddedau gyrru.

#### 6. DYLETSWYDDAU GYRWYR BWS MINI

Rhaid i bob aelod staff, myfyriwr neu wirfoddolwr sy'n gyrru bws mini i wneud gwaith i'r brifysgol:

- Gydymffurfio â'r gofynion a amlinellir o dan 'Gyrrwr' uchod.
- Cyflawni eu cyfrifoldebau yn ôl gofynion Rheolau'r Ffordd Fawr a'r Llawlyfr Bws Mini.
- Rhoi gwybod am ardystiad neu amodau ar drwydded yrru neu gyfyngiadau meddygol i'r cydlynnydd bws mini a'r swyddog yswiriant ar unwaith.
- Gwneud archwiliad o'r bws mini a'i gofnodi cyn y daith.
- Peidio byth ag ysmegu mewn bws mini na gyrru o dan ddylanwad alcohol, cyffuriau nac unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn neu a brynir dros y cownter a allai effeithio ar eu gallu i yrru.
- Sicrhau y llenwir Ffurflen Cofrestru Taith ar gyfer pob taith, gyda chopi'n cael ei gadw mewn lleoliad canolog.

#### 7. DYLETSWYDDAU TEITHWYR

Rhaid i'r holl staff a'r myfyrwyr sy'n teithio mewn bws mini a ddefnyddir i wneud gwaith i'r brifysgol:

- Peidio byth â thynnu sylw'r gyrrwr, a rhaid dilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr bob amser.
- Gwisgo gwregysau, os ydynt ar gael, bob amser pan fo'r cerbyd yn symud.
- Ymddwyn mewn dull na fydd yn peryglu pobl eraill.
- Peidio byth ag ysmegu yn y bws mini, yfed alcohol na chymryd cyffuriau ac eithrio rhai ar bresgripsiwn neu a brynir dros y cownter.

#### 8. CYFARWYDDYD PELLACH

- Llawlyfr Bws Mini Prifysgol Bangor.

#### 9. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO


Bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau y cydymffurfir â'r Safon Bolisi hon, a gall Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y brifysgol adolygu effeithiolrwydd y ddogfen hon o bryd i'w gilydd.

Yn ychwanegol at hyn, rhaid i golegau/adranau adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain bob hyn a hyn, i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu gweithredu, eu bod yn addas, ac yn effeithiol.


**Diwedd**

**Atodiad 1 - Cydlynnydd bysiau mini**

I sicrhau y caiff bysiau mini eu gyrru'n ddiogel ac fe'u defnyddir mewn cyflwr sy'n addas i'r ffordd fawr, bydd y cydlynnydd bysiau mini yn gwneud y canlynol:

**BYSIAU MINI sy'n eiddo i'r brifysgol / a brydlesir**

**SYLWCH:** Gweithredu fel cyswllt i fysiau mini a logir. Gwirio bod y cyflenwr yn ddibynadwy e.e. ar restr brynu'r adran gyllid, yn gyflenwr cydnabyddedig a chadarnhau bod gan y bws mini dystysgrif brawf, wedi'i drethu a'i gynnal a chadw. Llenwi ffurflen yswiriant ar-lein yr adran gyllid.

**Gwirio'r GYRRWR (yn cynnwys staff nad ydynt yn perthyn i'r brifysgol / myfyrwyr)**

**SYLWCH:** Gall trwyddedau gyrru tramor fod â chategoriâu gwahanol. Gofynnwch am gyngor gan y Swyddog yswiriant os oes angen